**COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR SIR A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR - NEUADD Y SIR, LLANDRINDOD, DDYDD MAWRTH 7 MAWRTH 2017**

YN BRESENNOL
Y Cynghorydd Sir KF Tampin

Y Cynghorwyr Sir MC Alexander, PJ Ashton, D Bailey, G R Banks, G J Bowker, G Breeze, R G Brown, J H Brunt, L V Corfield, K W Curry, M J B Davies, S C Davies, D E Davies, L R E Davies, E R Davies, A W Davies, M J Dorrance, V E Evans, W J Evans, D O Evans, L Fitzpatrick, J Gibson-Watt, P Harris, M R Harris, S M Hayes, J C Holmes, G Hopkins, E A Jones, D C Jones, M J Jones, E M Jones, Eldrydd M Jones, D R Jones, J R Jones, W T Jones, F H Jump, H Lewis, S McNicholas, P J Medlicott, DW Meredith, ET Morgan, G Morgan, JG Morris, W J T Powell, WD Powell, D R Price, P C Pritchard, G W Ratcliffe, K M Roberts-Jones, J G Shearer, K S Silk, D A Thomas, W B Thomas, A G Thomas, D G Thomas, R G Thomas, T Turner, T J Van-Rees, G P Vaughan, D H Williams, S L Williams a J M Williams

| 1. | YMDDIHEURIADAU |
|---|---|

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Sir S Davies, GM Jones, PE Lewis, RH Mills a GD Price a chan y Cynghorydd Sir MC Mackenzie oedd ar fusnes arall i'r Cyngor.

| 2. | DATGANIADAU O DDIDDORDEB |
|---|---|

Datganodd y Cynghorwyr Sir MJB Davies a GW Ratcliffe fuddiannau anariannol personol yn eitem CC31 – 2017 Trosglwyddiad Cyfalaf ar gyfer Ysgolion Cynradd yn Nalgylch Gwernyfed fel llywodraethwyr a benodir gan yr AALl yn Ysgol Gynradd Llan-faes.

Datganodd y Cynghorwyr Sir PJ Ashton, LV Corfield, DE Davies, JE Evans, GG Hopkins, WJT Powell, DR Price a TJ Van-Rees fuddiannau personol sy'n rhagfarnu yn eitem CC38 – 2017 y Polisi Cyflog.

Datganodd y Cynghorwyr Sir PJ Ashton, D Bailey, GJ Bowker, JH Brunt, LV Corfield, KW Curry, LRE Davies, SC Davies, MJ Dorrance, JE Evans, CJ Gibson-Watt, SM Hayes, DR Jones, EA Jones, E Michael Jones, MJ Jones, WT Jones, H Lewis, DW Meredith, S McNicholas, G. Morgan, JG Morris, WJT Powell, GW Ratcliffe, KM Roberts-Jones, JG Shearer, KS Silk, AG Thomas, DG Thomas, TG Turner, TJ Van-Rees, GP Vaughan, DH Williams, GIS Williams, JM Williams ac S Williams fuddiannau personol nad ydynt yn rhagfarnu yn eitem CC39 – 2017 Cronfa Fuddsoddi Cymru fel aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Datganodd y Cynghorydd Sir MJ Dorrance fuddiant anariannol personol yn eitem CC42 – 2017 Ffrwd Cyfrwng Cymraeg Ysgol Uwchradd Aberhonddu gan fod ei bartner yn llywodraethwr a benodir gan yr AALl yn yr ysgol. Datganodd y

Cynghorydd Sir GW Ratcliffe fuddiant personol sy'n rhagfarnu gan fod ganddo berthynas yn y ffrwd cyfrwng Cymraeg yn nalgylch Aberhonddu.

| 3. | CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD |
|---|---|

Croesawodd y Cadeirydd a'r Aelodau y Cynghorydd Sir Joy Shearer yn ôl yn dilyn ei salwch.

Bu'r Cadeirydd hefyd yn llongyfarch CFfI Llanfyllin ar eu llwyddiant wrth ennill Cystadleuaeth Adloniant CFfI Cymru Gyfan a'r Cynghorydd Gwynfor Thomas oedd wedi ysgrifennu a chynhyrchu'r sioe.

Hefyd bu'r Cynghorydd Shearer yn llongyfarch Gemma Owen CFfI Aberhafesb oedd wedi'i chyhoeddi fel aelod iau gorau CFfI Cymru. Byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at Miss Owen ac at CFfI Llanfyllin.

Rhoddodd y Cadeirydd wybod ymhlith y digwyddiadau roedd wedi'u mynychu roedd cyngerdd Rourke's Drift, agor cyfleusterau newydd yng Nghanolfan Chwaraeon Llanidloes a Gwobrau Chwaraeon Sir Frycheiniog a Maesyfed.

| 4. | CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD |
|---|---|

Nododd yr Arweinydd er ei bod yn wynebu rhai o'r toriadau cyllid mwyaf yng Nghymru roedd y sir wedi parhau i berfformio'n dda. Bu newidiadau yn y ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio gyda mwy o bwyslais ar weithio mewn partneriaeth ac integreiddio â Bwrdd Iechyd Addysgu Powys. Roedd y Cyngor wedi buddsoddi'n drwm mewn prosiectau cyfalaf gyda £130 miliwn wedi'i fuddsoddi mewn ysgolion newydd.

Gan mai dyma'r cyfarfod diwethaf cyn yr etholiadau llywodraeth leol, dymunodd yr Arweinydd yn dda i bob aelod gan ddiolch iddynt am yr anrhydedd o fod yn Arweinydd Cyngor Sir Powys.

| 5. | BRIFF Y PRIF WEITHREDWR |
|---|---|

Ni roddodd y Prif Weithredwr sesiwn friffio ar yr achlysur hwn.

| 6. | DATGANIAD POLISI CYFLOGAU 2017-18 |
|---|---|

Datganodd yr holl swyddogion oedd yn bresennol fuddiant yn yr eitem hon gan adael y cyfarfod tra oedd yn cael ei hystyried ac eithrio'r Arweinydd Proffesiynol – Gwasanaethau Cyflogaeth a'r Technegydd Cynorthwyol Dan Hyfforddiant. Mandy Collins, Ysgrifennydd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, oedd y Swyddog Monitro Dros Dro ar gyfer yr eitem hon.

Gadawodd y Cynghorwyr Sir PJ Ashton, LV Corfield, DE Davies, JH Evans, GG Hopkins, WJT Powell, DR Price a TJ Van-Rees y cyfarfod tra oedd yr eitem hon yn cael ei hystyried ar ôl datgan buddiannau personol sy'n rhagfarnu yn yr eitem.

Ystyriodd y Cyngor y Datganiad Polisi Cyflog ar gyfer 2017-18.

Cynigiwyd yr argymhelliad gan Ddeiliad y Portffolio Cyllid a'i eilio gan y Cynghorydd Sir SM Hayes a'i basio gan 44 o bleidleisiau gyda 2 yn erbyn a 2 yn ymatal.

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad: |
|---|---|
| **Cymeradwyo'r datganiad polisi cyflog a ffeiliwyd gyda'r cofnodion llofnodedig.** | **I sicrhau cydymffurfiaeth ag adran 38(1) Deddf Lleoliaeth 2011.** |

| 7. | TROSGLWYDDIADAU CYFALAF SYDD ANGEN CYMERADWYAETH Y CYNGOR |
|---|---|

7.1 Trosglwyddiad Cyfalaf ar gyfer Canolfan Ddiwylliannol Aberhonddu

Gofynnwyd y Cyngor i dreiglo £2.3 miliwn yn ei flaen i 2017/18 i barhau â'r prosiect.

Cynigiwyd yr argymhelliad gan Ddeiliad y Portffolio Cyllid a'i eilio gan y Cynghorydd Sir Rosemarie Harris a'i basio gan 53 o bleidleisiau gyda 5 yn erbyn.

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad: |
|---|---|
| **Cymeradwyo'r Trosglwyddiad Cyfalaf i dreiglo £2.3 miliwn o gyllideb Canolfan Ddiwylliannol Aberhonddu yn ei flaen i 2017/18.** | **I adael i gostau Diwygio a Thrawsnewid Gwasanaethau gael eu hariannu o dderbyniadau cyfalaf yn hytrach na refeniw.** |

7.2 Trosglwyddiad Cyfalaf ar gyfer Cyfarwyddyd Cyfalafu

Gofynnwyd i'r Cyngor o dan y pwerau a roddir i'r awdurdod o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 adrannau 16(2)(b) a 20 Ymdriniaeth â Rhai Costau fel Gwariant Cyfalaf i greu Cyfarwyddiadau Cyfalafu i ddefnyddio derbyniadau cyfalaf o werthu tir ac asedau adeiladau i ariannu costau'r Diwygio a Thrawsnewid Gwasanaethau a nodwyd.

Cynigiwyd yr argymhelliad gan Ddeiliad y Portffolio Cyllid a'i eilio gan y Cynghorydd Sir WB Thomas a'i basio gan 53 o bleidleisiau gydag 1 yn erbyn a 3 yn ymatal.

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad: |
|---|---|
| **Cymeradwyo'r Trosglwyddiad Cyfalaf i greu cyllideb o £1.981 miliwn i'r Cyfarwyddyd Cyfalafu ar gyfer 2016/17.** | **I adael i gostau Diwygio a Thrawsnewid Gwasanaethau gael eu hariannu o dderbyniadau cyfalaf yn hytrach na refeniw.** |

7.3 Trosglwyddiad Cyfalaf ar gyfer Goleuadau Stryd

Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo treiglo £1 filiwn yn ei flaen yn y gyllideb Effeithlonrwydd Goleuadau Stryd oherwydd yr oedi wrth gyflenwi llusernau LED Goleuadau Stryd.

Cynigiwyd yr argymhelliad gan Ddeiliad y Portffolio Cyllid a'i eilio gan y Cynghorydd Sir RG Brown a'i basio gan 57 o bleidleisiau a 0 yn erbyn.

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad: |
|---|---|
| **Cymeradwyo'r Trosglwyddiad Cyfalaf i dreiglo £1 filiwn o'r gyllideb Effeithlonrwydd Goleuadau Stryd yn ei flaen i 2017/18.** | Oedi wrth gyflenwi llusernau LED. |

7.4 Trosglwyddiad Cyfalaf ar gyfer Ysgolion Cynradd yn Nalgylch Gwernyfed

Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo treiglo £1.564 miliwn yn ei flaen i gyllideb 2017/18 ar gyfer Prosiect Dalgylch Ysgolion Cynradd Gwernyfed oherwydd yr oedi a fu oblegid cymeradwyo'r achosion busnes yn ystod y flwyddyn. Roedd gwaith wedi dechrau ar ran o'r safle.

Cynigiwyd yr argymhelliad gan Ddeiliad y Portffolio Cyllid a'i eilio gan y Cynghorydd Sir EA Jones a'i basio gan 55 o bleidleisiau gydag 1 yn erbyn.

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad: |
|---|---|
| **Cymeradwyo'r Trosglwyddiad Cyfalaf i dreiglo £1.564 miliwn o gyllideb Dalgylch Gwernyfed yn ei flaen i 2017/18.** | Oedi yng ngwariant y prosiect. |

7.5 Trosglwyddiad Cyfalaf ar gyfer Safon Ansawdd Tai Cymru

Gofynnwyd i'r Cyngor symud £2.137 miliwn o gyllideb Safon Ansawdd Tai Cymru ar gyfer 2016/17 oherwydd oedi a newidiadau i'r prosiectau niferus sy'n ffurfio'r gyllideb gyffredinol.

Cynigiwyd yr argymhelliad gan Ddeiliad y Portffolio Cyllid a'i eilio gan y Cynghorydd Sir MR Harris a'i basio gan 54 o bleidleisiau a 0 yn erbyn.

| PENDERFYNWYD: | Rheswm am y Penderfyniad: |
|---|---|
| **Cymeradwyo'r Trosglwyddiad Cyfalaf i dynnu £2.137 miliwn o 2016/17 o gyllideb Safon Ansawdd Tai Cymru.** | Oedi yng ngwariant y prosiect. |

7.6 Trosglwyddiad Cyfalaf ar gyfer Adeiladu o'r Newydd

Gofynnwyd i'r Cyngor dreiglo £850,000 o'r gyllideb yn ei flaen ar gyfer Ailbrynu/Adeiladu o'r Newydd Dai Cyngor i 2017/18 i barhau â'r prosiect a chafwyd oedi yn y prosiect ynghynt yn y flwyddyn.

Cynigiwyd yr argymhelliad gan Ddeiliad y Portffolio Cyllid a'i eilio gan y Cynghorydd Sir MR Harris a'i basio gan 53 o bleidleisiau gyda 0 yn erbyn ac 1 yn ymatal.

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad: |
|---|---|
| **Cymeradwyo'r Trosglwyddiad Cyfalaf i dreiglo £850,000 o'r Gyllideb Ailbrynu/Adeiladu o'r newydd yn ei flaen i 2017/18.** | **I adael i gostau Diwygio a Thrawsnewid Gwasanaethau gael eu hariannu o dderbyniadau cyfalaf yn hytrach na refeniw.** |

32.1. Trosglwyddiad Cyfalaf ar gyfer Canolfan Ddiwylliannol Aberhonddu

Gofynnwyd y Cyngor i dreiglo £2.3 miliwn yn ei flaen i 2017/18 i barhau â'r prosiect.

Cynigiwyd yr argymhelliad gan Ddeiliad y Portffolio Cyllid a'i eilio gan y Cynghorydd Sir Rosemarie Harris a'i basio gan 53 o bleidleisiau gyda 5 yn erbyn.

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad: |
|---|---|
| **Cymeradwyo'r Trosglwyddiad Cyfalaf i dreiglo £2.3 miliwn o gyllideb Canolfan Ddiwylliannol Aberhonddu yn ei flaen i 2017/18.** | **I adael i gostau Diwygio a Thrawsnewid Gwasanaethau gael eu hariannu o dderbyniadau cyfalaf yn hytrach na refeniw.** |

32.2. Trosglwyddiad Cyfalaf ar gyfer Cyfeiriad Cyfalafu

Gofynnwyd i'r Cyngor o dan y pwerau a roddir i'r awdurdod o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 adrannau 16(2)(b) a 20 Ymdriniaeth â Rhai Costau fel Gwariant Cyfalaf i greu Cyfarwyddiadau Cyfalafu i ddefnyddio derbyniadau cyfalaf o werthu tir ac asedau adeiladau i ariannu costau'r Diwygio a Thrawsnewid Gwasanaethau a nodwyd.

Cynigiwyd yr argymhelliad gan Ddeiliad y Portffolio Cyllid a'i eilio gan y Cynghorydd Sir WB Thomas a'i basio gan 53 o bleidleisiau gydag 1 yn erbyn a 3 yn ymatal.

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad: |
|---|---|
| **Cymeradwyo'r Trosglwyddiad Cyfalaf i greu cyllideb o £1.981 miliwn i'r Cyfarwyddyd Cyfalafu ar gyfer 2016/17.** | **I adael i gostau Diwygio a Thrawsnewid Gwasanaethau gael eu hariannu o dderbyniadau cyfalaf yn hytrach na refeniw.** |

32.3. Trosglwyddiad Cyfalaf ar gyfer Goleuadau Stryd

Gofynnwyd i’r Cyngor gymeradwyo treiglo £1 filiwn yn ei flaen yn y gyllideb Effeithlonrwydd Goleuadau Stryd oherwydd yr oedi wrth gyflenwi llusernau LED Goleuadau Stryd.

Cynigiwyd yr argymhelliad gan Ddeiliad y Portffolio Cyllid a’i eilio gan y Cynghorydd Sir RG Brown a’i basio gan 57 o bleidleisiau a 0 yn erbyn.

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad: |
|---|---|
| **Cymeradwyo’r Trosglwyddiad Cyfalaf i dreiglo £1 filiwn o’r gyllideb Effeithlonrwydd Goleuadau Stryd yn ei flaen i 2017/18.** | Oedi wrth gyflenwi llusernau LED. |

32.4. Trosglwyddiad Cyfalaf ar gyfer Ysgolion Cynradd yn Nalgylch Gwernyfed

Gofynnwyd i’r Cyngor gymeradwyo treiglo £1.564 miliwn yn ei flaen i gyllideb 2017/18 ar gyfer Prosiect Dalgylch Ysgolion Cynradd Gwernyfed oherwydd yr oedi a fu oblegid cymeradwyo’r achosion busnes yn ystod y flwyddyn. Roedd gwaith wedi dechrau ar ran o’r safle.

Cynigiwyd yr argymhelliad gan Ddeiliad y Portffolio Cyllid a’i eilio gan y Cynghorydd Sir EA Jones a’i basio gan 55 o bleidleisiau gydag 1 yn erbyn.

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad: |
|---|---|
| **Cymeradwyo’r Trosglwyddiad Cyfalaf i dreiglo £1.564 miliwn o gyllideb Dalgylch Gwernyfed yn ei flaen i 2017/18.** | Oedi yng ngwariant y prosiect. |

32.5. Trosglwyddiad Cyfalaf ar gyfer Safon Ansawdd Tai Cymru

Gofynnwyd i’r Cyngor symud £2.137 miliwn o gyllideb Safon Ansawdd Tai Cymru ar gyfer 2016/17 oherwydd oedi a newidiadau i’r prosiectau niferus sy’n ffurfio’r gyllideb gyffredinol.

Cynigiwyd yr argymhelliad gan Ddeiliad y Portffolio Cyllid a’i eilio gan y Cynghorydd Sir MR Harris a’i basio gan 54 o bleidleisiau a 0 yn erbyn.

| PENDERFYNWYD: | Rheswm am y Penderfyniad: |
|---|---|
| **Cymeradwyo’r Trosglwyddiad Cyfalaf i dynnu £2.137 miliwn o 2016/17 o gyllideb Safon Ansawdd Tai Cymru.** | Oedi yng ngwariant y prosiect. |

32.6. Trosglwyddiad Cyfalaf ar gyfer Adeiladu o'r Newydd

Gofynnwyd i’r Cyngor dreiglo £850,000 o’r gyllideb yn ei flaen ar gyfer Ailbrynu/Adeiladu o’r Newydd Dai Cyngor i 2017/18 i barhau â’r prosiect a chafwyd oedi yn y prosiect ynghynt yn y flwyddyn.

Cynigiwyd yr argymhelliad gan Ddeiliad y Portffolio Cyllid a'i eilio gan y Cynghorydd Sir MR Harris a'i basio gan 53 o bleidleisiau gyda 0 yn erbyn ac 1 yn ymatal.

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad: |
|---|---|
| **Cymeradwyo'r Trosglwyddiad Cyfalaf i dreiglo £850,000 o'r Gyllideb Ailbrynu/Adeiladu o'r newydd yn ei flaen i 2017/18.** | **I adael i gostau Diwygio a Thrawsnewid Gwasanaethau gael eu hariannu o dderbyniadau cyfalaf yn hytrach na refeniw.** |

| 8. | PENDERFYNIAD TRETH Y CYNGOR AR GYFER 2017-2018 |
|---|---|

Ystyriodd y Cyngor y penderfyniad ynglŷn â'r Dreth Gyngor fel a ganlyn:

Cytunwyd ar y gyllideb yn y Cyngor 23 Chwefror 2017; mae'r adroddiad hwn yn cynnwys cynnydd o 3.9% yn y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017-18.

Cynigiwyd yr argymhelliad gan Ddeiliad y Portffolio Cyllid a'i eilio gan EA Jones a'i basio gan 35 o bleidleisiau gydag 17 yn erbyn a 3 yn ymatal.

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad: |
|---|---|
| 1. **BOD y symiau a geir ym mharagraff 2.1 uchod yn cael eu derbyn gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2017/2018 yn unol ag Adrannau 32 i 36 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.**<br><br>2. **BOD y Cyngor, yn unol ag Adran 30(2) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, drwy hyn yn gosod y symiau a geir ym mharagraff 2.3 fel symiau'r Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn 2017/2018 i bob un o'r categorïau o anheddau a ddangosir.** | **I ateb y gofynion cyfreithiol ar y Cyngor i osod swm ar gyfer y Dreth Gyngor.** |

| 9. | CYNLLUN GWELLA CORFFORAETHOL |
|---|---|

Ystyriodd y Cyngor y diweddariad ar gyfer Cynllun Gwella Corfforaethol 2016-2020.

Cynigiwyd yr argymhelliad gan yr Arweinydd a'i eilio gan y Cynghorydd Sir WT Jones a'i basio gan 53 o bleidleisiau gydag 1 yn erbyn ac 1 yn ymatal.

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad: |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **Cymeradwyo Diweddariad Cynllun Gwella Corfforaethol 2016/20 - 2017.** | **Mae'r Cynllun hwn yn diffinio'n glir weledigaeth, blaenoriaethau a chanlyniadau arfaethedig y Cyngor, gan wneud cysylltiadau eglur â Chynllun Powys yn Un, y Strategaeth Gyllid Tymor Canolig a'r strategaeth gweithlu datblygol.**<br>**I hwyluso ymgysylltu effeithiol â staff, aelodau etholedig, y cyhoedd a rhanddeiliaid megis rheoleiddwyr.** |

Ymunodd y Cynghorwyr Sir KM Roberts-Jones a JM Williams â'r cyfarfod am 11.20yb a hwythau wedi bod ar fusnes arall i'r Cyngor.

| 10. | ADOLYGIAD O'R CYFANSODDIAD |
|---|---|

Ystyriodd y Cyngor newidiadau i Adrannau 4, 5, 7 a 12 y Cyfansoddiad a argymhellwyd gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Roedd y newidiadau mewn cysylltiad â gweithdrefnau'r Cabinet mewn ymateb i adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru oedd wedi mynegi pryder ynglŷn ag arferion gweithredu'r Cabinet ac yn arbennig yr hawl i Gadeiryddion Craffu ac Arweinwyr Grwpiau Gwrthbleidiol siarad yng nghyfarfodydd y Cabinet.

Cynigiodd y Cynghorydd Sir CJ Gibson-Watt nifer o welliannau wedi'u heilio gan y Cynghorydd Sir JG Morris gan ddadlau bod yr argymhellion yn rhoi pwerau ychwanegol sylweddol i'r Cabinet wrth wanio Craffu.

Pasiwyd Gwelliant A) gan 40 o bleidleisiau gydag 13 yn erbyn a 2 yn ymatal.

**PENDERFYNWYD yn ogystal â chyhoeddi blaengynllun gwaith cyflawn i'r Cabinet am 8 mis ymlaen fel yng Ngwelliant arfaethedig 5.22.14 y Cyfansoddiad, fod rhaid i unrhyw eitemau brys i'w hystyried gan y Cabinet fod yn ddarostyngedig i hysbysu Cadeirydd y Pwyllgor Craffu perthnasol (neu'r Is-Gadeirydd os nad yw'r Cadeirydd ar gael).**

O'i roi i bleidlais, collwyd Gwelliant B) bod Cadeiryddion y prif Bwyllgorau Craffu (neu'r Is-Gadeiryddion os na all y Cadeiryddion fod yn bresennol) yn eistedd ar y Bwrdd Comisiynu a Chaffael fel aelodau dibleidlais sy'n gallu gwneud sylwadau o 18 pleidlais i 39 gydag 1 yn ymatal.

Pasiwyd Gwelliant C) gan 45 o bleidleisiau gydag 14 yn erbyn ac 1 yn ymatal.

**PENDERFYNWYD bod Cadeiryddion y prif Bwyllgorau Craffu (neu'r Is-Gadeiryddion os na all y Cadeiryddion fod yn bresennol) yn eistedd ar y Bwrdd Trosolwg Strategol**

Pasiwyd Gwelliant D) gan 50 o bleidleisiau gyda 6 yn erbyn ac 1 yn ymatal.

**PENDERFYNWYD yn Adran 5.26 (Hawliau Cadeiryddion Craffu i siarad mewn Cyfarfod) fod y canlynol yn cael ei ychwanegu:**

**“Dylai agendâu’r Cabinet nodi’n eglur pa eitemau sydd wedi bod yn ddarostyngedig i graffu gan y Pwyllgor Craffu perthnasol cyn cael eu hystyried gan y Cabinet; a dylai cofnodion cyfarfodydd y Cabinet nodi’n glir pam mae argymhellion gan y Pwyllgor Craffu perthnasol wedi cael eu derbyn neu eu gwrthod.”**

O’i roi i bleidlais, trechwyd gwelliant a gynigiwyd gan y Cynghorydd Sir MC Alexander a’i eilio gan y Cynghorydd Sir L Fitzpatrick i ohirio ystyried y newidiadau i’r Cyfansoddiad nes i’r Cyngor newydd gael ei ethol o 44 o bleidleisiau i 16.

Cynigiwyd y cynnig annibynnol gan y Cynghorydd Sir MR Harris a’i eilio gan y Cynghorydd Sir WJT Powell a’i basio gan 52 o bleidleisiau gyda 2 yn erbyn a 4 yn ymatal.

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad: |
| --- | --- |
| **(i) Cymeradwyo Adrannau 4, 5 a 12 y Cyfansoddiad fel y’u diwygiwyd i ddod i rym o 7 Mawrth 2017.**<br><br>**(ii) Cymeradwyo Adran 7 y Cyfansoddiad fel y’i diwygiwyd i ddod i rym o 18 Mai 2017.**<br><br>**(iii) yn ogystal â chyhoeddi blaengynllun gwaith cyflawn i’r Cabinet am 8 mis ymlaen, fel a geir yng Ngwelliant arfaethedig 5.22.14 y Cyfansoddiad, fod rhaid i unrhyw eitemau brys i’w hystyried gan y Cabinet fod yn ddarostyngedig i hysbysu Cadeirydd y Pwyllgor Craffu perthnasol (neu’r Is-Gadeirydd os nad yw’r Cadeirydd ar gael).**<br><br>**(iv) Bod Cadeiryddion y Prif Bwyllgorau Craffu (neu’r Is-Gadeiryddion os na all y Cadeiryddion fod yn bresennol) yn eistedd ar y Bwrdd Trosolwg Strategol.**<br><br>**(v) yn Adran 5.26 (Hawliau Cadeiryddion Craffu i siarad mewn Cyfarfod) dylai’r canlynol gael ei ychwanegu:**<br><br>**“Dylai agendâu’r Cabinet nodi’n eglur pa eitemau sydd wedi bod yn** | **I ddiweddaru Adrannau o’r Cyfansoddiad mewn ymateb i adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o drefniadau llywodraethu’r Cyngor ac fel rhan o’r adolygiad parhaus o’r Cyfansoddiad.** |

| | |
|---|---|
| **ddarostyngedig i graffu gan y Pwyllgor Craffu perthnasol cyn cael eu hystyried gan y Cabinet; a dylai cofnodion cyfarfodydd y Cabinet nodi'n glir pam mae argymhellion gan y Pwyllgor Craffu perthnasol wedi cael eu derbyn neu eu gwrthod."** | |

| **11.** | **ARGYMHELLIAD Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |
|---|---|

Ystyriodd y Cyngor argymhelliad y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd y dylai'r Pwyllgorau Ardal (Sirol) gael eu diddymu o'r Cyfarfod Blynyddol ym mis Mai 2017.

Mynegodd yr aelodau amrywiaeth barn gyda rhai'n cwestiynu gwerth y cyfarfodydd gan awgrymu y dylai cyfarfodydd mwy lleol sy'n seiliedig ar wasanaethau gymryd eu lle gydag eraill yn dadlau y dylent gael eu cadw yn eu fformat presennol.

Collwyd gwelliant a gynigiwyd gan y Cynghorydd Sir LV Corfield a'i eilio gan y Cynghorydd Sir GR Banks fod Pwyllgorau Sirol yn peidio â chyfarfod yn rheolaidd ond bod awdurdod yn cael ei roi i'r Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Sirol i gynnull cyfarfodydd i ystyried materion o bwysigrwydd mawr yn lleol o 32 o bleidleisiau i 24 gydag 1 yn ymatal.

Collwyd gwelliant a gynigiwyd gan y Cynghorydd Sir GW Ratcliffe a'i eilio gan y Cynghorydd Sir MC Dorrance fod Pwyllgorau Sirol yn cael eu diddymu a bod cyfarfodydd ardal sy'n canolbwyntio ar faterion gweithredol yn cymryd eu lle o 32 o bleidleisiau i 21 gyda 3 yn ymatal.

Collwyd gwelliant gan y Cynghorydd Sir GJ Bowker a'i eilio gan y Cynghorydd Sir JM Williams i ohirio ystyried y mater nes bod y Cyngor newydd yn ei le o 29 o bleidleisiau i 24 gydag 1 yn ymatal.

Pleidleisiodd y Cyngor ar argymhelliad y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, gyda 27 o bleidleisiau o blaid, 27 yn erbyn a 2 yn ymatal. Drwy bleidlais fwrw'r Cadeirydd collwyd yr argymhelliad.

Torrodd y cyfarfod am 13.04 gan ailgynnull am 14.00.

YN BRESENNOL
Y Cynghorydd Sir KF TampinK F Tampin (Caderiydd)

Y Cynghorwyr Sir MC Alexander, PJ Ashton, D Bailey, G R Banks, G J Bowker, G Breeze, R G Brown, J H Brunt, L V Corfield, K W Curry, M J B Davies, S C Davies, D E Davies, L R E Davies, E R Davies, A W Davies, M J Dorrance, V E Evans, W J Evans, D O Evans, L Fitzpatrick, J Gibson-Watt, P Harris, M R Harris, S M Hayes, J C Holmes, G Hopkins, E A Jones, D C Jones, M J Jones, E M Jones,

Eldrydd M Jones, D R Jones, J R Jones, W T Jones, F H Jump, H Lewis, S McNicholas, P J Medlicott, DW Meredith, ET Morgan, G Morgan, JG Morris, W J T Powell, WD Powell, D R Price, P C Pritchard, G W Ratcliffe, K M Roberts-Jones, J G Shearer, K S Silk, D A Thomas, W B Thomas, A G Thomas, D G Thomas, R G Thomas, T Turner, T J Van-Rees, G P Vaughan, D H Williams, S L Williams and J M Williams

| 12. | FFRWD GYMRAEG YSGOL UWCHRADD ABERHONDDU |
|---|---|

Datganodd y Cynghorydd Sir GW Ratcliffe fuddiant personol sy'n rhagfarnu mewn cysylltiad â'r eitem hon a gadawodd y cyfarfod.

Rhoddodd y Swyddog Monitro wybod na fyddai aelodau'r Cabinet yn cael pleidleisio ar yr eitem hon.

Ystyriodd y Cyngor adroddiad Deiliad y Portffolio Addysg am ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ffurfiol i golli'r ffrwd cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Uwchradd Aberhonddu o 31 Awst 2017, gydag Ysgol Uwchradd Aberhonddu'n dod yn ysgol cyfrwng Saesneg o 1 Medi 2017. Rhoddodd Deiliad y Portffolio wybod bod cyfanswm o 237 o ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad wedi'u derbyn, gan gynnwys ymatebion a gyflwynwyd drwy ddefnyddio'r ffurflen ymateb ar-lein ac ymatebion ysgrifenedig eraill. Derbyniwyd 71 o ymatebion gan un ymatebwr unigol a 26 gan ymatebwr unigol arall. Ar ben hynny, yn ystod y cyfnod ymgynghori, anogwyd unigolion i e-bostio'r Cyngor gyda'r datganiad, 'Y cwbl dw i eisiau ar gyfer y Nadolig yw i'r ffrwdd cyfrwng Cymraeg aros yn agored yn Ysgol Uwchradd Aberhonddu'. Derbyniwyd 39 o ymatebion nad oeddent ond yn cynnwys y datganiad hwn. Yn ogystal â'r ymatebion ysgrifenedig, derbyniwyd copi o ddeiseb ar-lein a lofnodwyd gan 236 o bobl oedd yn cynnwys 67 o sylwadau ysgrifenedig. Rhestrwyd y materion a godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori gan gynnwys y rheini a godwyd mewn ymatebion ysgrifenedig a'r rheini a godwyd yn y cyfarfodydd ymgynghori yn yr Adroddiad Ymgynghori (Atodiad B), ynghyd ag ymateb yr awdurdod i'r materion hyn.

Dywedodd y Cynghorydd Sir David Meredith nad oedd dau ymgynghoriad blaenorol wedi helpu niferoedd disgyblion yn yr ysgol na chwaith y penderfyniad i gynnig cludiant am ddim i ddisgyblion oedd eisiau symud i Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt. Nododd ei bod yn costio £38,000 i gludo disgyblion i Bont-y-pŵl, arian a allai fod wedi'i ddefnyddio i ariannu'r ysgol yn iawn. Dywedodd y byddai'n well gan ddisgyblion Ysgol y Bannau fynd i Aberhonddu a byddai symud y ffrwd Gymraeg o Ysgol Uwchradd Aberhonddu yn cael effaith negyddol ar Ysgol y Bannau a'r iaith Gymraeg yn yr ardal. Dywedodd i amseru'r ymgynghoriad fod yn anffodus gan ei fod wedi digwydd wrth i'r ysgol symud o fesurau arbennig. Nododd fod yr arbedion £58,000 arfaethedig yn cael eu gwrthbwyso gan y £116,000 mae'n ei gostio ar hyn i bryd i gludo disgyblion pan mai dim ond £47,000 oedd ei angen ar yr ysgol i'w dyrchafu i statws Categori 2B.

Cytunodd y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance fod angen ad-drefnu ysgolion ond dywedodd y dylid ei wneud yn deg. Gofynnodd i ble y byddai'r 173 o ddisgyblion o Bontsenni ac Ysgol y Bannau'n mynd a dywedodd mai eu hawl oedd cael eu haddysgu yn eu cymuned eu hunain. Dywedodd nad oedd unrhyw dystiolaeth bod Llanfair-ym-Muallt mewn gwell sefyllfa i gyflwyno addysg cyfrwng Cymraeg a

gofynnodd i'r Cabinet egluro sut byddai'r cynnig yn cyrraedd nodau'r Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol.

Rhoddodd Deiliad y Portffolio Addysg wybod nad oedd niferoedd y disgyblion yn Ysgol y Bannau wedi cynyddu dros y deng mlynedd diwethaf ac atgoffodd yr aelodau fod Aberhonddu'n cynnig 4 pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg o'i chymharu â 12 yn Llanfair-ym-Muallt. Roedd yr apêl drafnidaeth a ganiatawyd yn 2011 wedi gosod y gynsail ar adeg pryd y bernid bod y ddarpariaeth yn Aberhonddu yn annigonol. Dadleuodd fod y plant yn cael eu siomi drwy beidio â chael eu hanfon i ysgol lle'r oedd ystod ehangach o bynciau.

Dadleuodd y Cynghorydd Sir James Gibson-Watt fod y penderfyniad i gael ffrwd cyfrwng Cymraeg yn Aberhonddu wedi'i wneud pan leolwyd Ysgol y Bannau y drws nesa iddi. Bu niferoedd y disgyblion yn sefydlog tan 2014/15 pan oedd camau'r Cyngor wedi cyfrannu at gwymp yn y niferoedd a rhybuddiodd y byddai'r cynnig yn effeithio ar Ysgol y Bannau a Phontsenni. Byddai'r cynnig yn golygu na fyddai unrhyw addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg i'r de o Lanfair-ym-Muallt oedd yn gwneud iddi ymddangos fel pe na bai gan y Cyngor ddiddordeb mewn hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg. Rhybuddiodd hefyd am yr effaith ar gyllideb Ysgol Uwchradd Aberhonddu.

Dadleuodd y Cynghorydd Sir Liam Fitzpatrick mai mater i'r ardal gyfan oedd hwn ac nad oedd yn iawn na fyddai addysg uwchradd Gymraeg yn ne'r sir.

Dywedodd y Cynghorydd Melanie Davies mai dyma'r ffordd anghywir ymlaen i'r Cyngor a'i bod yn bwysig cadw'r ffrwd cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Uwchradd Aberhonddu.

Dywedodd y Cynghorydd Sir Timothy Van-Rees fod y mater hwn yn destun trafod ers blynyddoedd. Cyfeiriodd at yr adroddiad gan ddweud bod y dystiolaeth a gafwyd yn yr adroddiad wedi cyflwyno dadl ddiymwad dros leoli'r ffrwd cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt. Nododd y ffrwd cyfrwng Cymraeg gref yn Ysgol Gynradd Llanfair-ym-Muallt ac yn Llandrindod a Rhaeadr Gwy.

Dywedodd y Cynghorydd Sir Sandra Davies fod y grŵp Llafur yn cefnogi addysg cyfrwng Cymraeg yn Aberhonddu a thrwy'r sir benbaladr a chyfeiriodd at y ddwy flaenoriaeth allweddol yn y Cynllun Gwella Corfforaethol, Cefnogi Pobl yn y Gymuned a Dysgu.

Dywedodd y Cynghorydd Sir Gillian Thomas mai canlyniad yr ymgynghoriad diffygiol yn 2014/15 oedd yn gyfrifol am ddisgyblion yn dewis mynd i Lanfair-ym-Muallt gan arwain at niferoedd is yn y ffrwd Gymraeg yn Aberhonddu. Cytunodd mai un ysgol uwchradd ddylai ddarparu addysg uwchradd Gymraeg ym Mrycheiniog ond dywedodd, gan mai yn Aberhonddu y mae Ysgol y Bannau, mai nonsens oedd ei lleoli yn Llanfair-ym-Muallt. Nododd y byddai disgyblion yn teithio 30 milltir un ffordd o Bontsenni i Lanfair-ym-Muallt. Nododd y dyletswyddau sydd ar y Cyngor i hybu defnydd o'r Gymraeg a'i datblygiad ac i ddarparu gwasanaethau ac addysg yn lleol gan ddweud y byddai'r cynnig yn cael effaith andwyol ar y Gymraeg yn yr ardal. Nododd i'r adroddiad gyfeirio at arbed £58,000 ond ni soniodd am y costau ychwanegol o dros £100,000 wrth gludo disgyblion o ddalgylch Aberhonddu i Lanfair-ym-Muallt na'r £20,000 wrth eu cludo i Ystalyfera. Hefyd, ni roddodd yr adroddiad unrhyw ystyriaeth i raddau

Estyn gyda Llanfair-ym-Muallt dan fesurau arbennig ac Aberhonddu allan o fesurau arbennig.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Sir Paul Ashton hefyd at y pellter y byddai'n rhaid i ddisgyblion ei deithio a'r ffaith bod Ysgol y Bannau y drws nesa i Ysgol Uwchradd Aberhonddu.

Ategodd y Cynghorydd Sir Aled Davies sylwadau aelodau lleol. Dadleuodd fod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol ac nad oedd yn iawn mai er budd disgyblion iaith Saesneg yn unig y byddai'r buddsoddiad o filiynau o bunnoedd yn Ysgol Uwchradd Aberhonddu. Dywedodd fod ansicrwydd ynglŷn â'r ysgol wedi gyrru disgyblion i ffwrdd ond ei bod wedi dod drwyddi ac nad oedd bellach o dan fesurau arbennig a byddai hyn yn denu mwy o ddisgyblion. Dywedodd fod yn rhaid i'r Cyngor chwarae ei ran wrth gyflawni uchelgais Llywodraeth Cymru i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Dywedodd y Cynghorydd Sir Evan Morgan, pe bai Powys wedi cyflawni ei haddewid i ddarparu'r cyllid i godi'r ysgol i statws Categori 2b, ni fyddai 30 o ddisgyblion o ardal Pontsenni wedi gadael i fynd i Ystalyfera. Dywedodd mai cael adeilad newydd oedd y cyfle i greu canolfan ragoriaeth a darparu ystod ehangach o bynciau.

Dywedodd y Cynghorydd Sir Gwilym Vaughan y dylai penderfyniad ar y mater hwn fod wedi'i wneud flynyddoedd yn ôl. Dadleuodd nad oedd 4 pwnc yn gyfystyr ag addysg cyfrwng Cymraeg gan ddweud os oedd Ysgol Uwchradd Aberhonddu i gael ffrwd cyfrwng Cymraeg, rhaid i'r disgyblion gael mynediad i ystod gyflawn o bynciau.

Gadawodd y Cynghorydd DR Price y cyfarfod am 14.44.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance a'i eilio gan y Cynghorydd Sir Aled Davies y dylai'r Cyngor bleidleisio ar yr argymhelliad yn yr adroddiad. Atgoffwyd y Cyngor mai pleidlais gynghori fyddai hon ac na fyddai aelodau'r Cyngor yn pleidleisio oherwydd byddent yn penderfynu ar y mater ar 14 Mawrth.

Roedd 8 pleidlais o blaid yr argymhellion yn yr adroddiad a 32 o bleidleisiau yn erbyn.

**PENDERFYNWYD peidio â chefnogi'r argymhelliad i gau'r ffrwd cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Uwchradd Aberhonddu o 31 Awst 2017.**

| 13. | PENODI AELOD LLEYG I'R PWYLLGOR ARCHWILIO |
|---|---|

Ystyriodd y Cyngor benodi aelod lleyg i'r Pwyllgor Archwilio fel sy'n ofynnol ym Mesur Llywodraeth Leol 2011.

Cynigiwyd yr argymhelliad gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio, y Cynghorydd Sir JG Morris a'i eilio gan y Cynghorydd Sir TJ Van-Rees a'i basio gan 42 o bleidleisiau gyda 0 yn erbyn a 2 yn ymatal.

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad: |
|---|---|
| **Bod aelod lleyg presennol y Pwyllgor Archwilio'n cael ei ailbenodi am ail dymor a'i dymor olaf yn ei swydd o'r CCB 18 Mai 2017 am gyfnod o 5 mlynedd tan etholiadau nesaf y Cyngor ym mis Mai 2022.** | **I hwyluso penodi aelod lleyg y Pwyllgor Archwilio o fis Mai 2017 i alluogi'r Pwyllgor i weithredu yn dilyn etholiadau'r Cyngor ym mis Mai 2017.** |

| 14. | ASESIAD POBLOGAETH AR GYFER POWYS |
|---|---|

Derbyniodd y Cyngor yr asesiad poblogaeth ar gyfer y sir. Roedd yr asesiad yn ofynnol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a byddai'n helpu'r Cyngor i gynllunio ei wasanaethau. Byddai'n cael ei gynnwys yn y pecyn ymgynefino i aelodau newydd eu hethol. Canmolwyd gwaith y swyddogion oedd wedi llunio'r asesiad.

Cynigiwyd yr argymhelliad gan y Cynghorydd Sir SM Hayes a'i eilio gan y Cynghorydd Sir RG Brown a'i basio gan 45 o bleidleisiau gyda 0 yn erbyn.

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad: |
|---|---|
| **Cymeradwyo'r Asesiad Poblogaeth yn yr Atodiad sydd ynghlwm wrth yr adroddiad.** | **Mae'r asesiad poblogaeth yn darparu sylfaen hanfodol i ddatblygu'r cynllun ardal statudol erbyn 31 Mawrth 2018.**<br><br>**Mae cymeradwyaeth gan y Cyngor cyfan yn ofynnol o dan y Ddeddf.** |

| 15. | PWL BUDDSODDI CYMRU - CYTUNDEB RHWNG AWDURDODAU A PHWYLLGOR CYD-LYWODRAETHU |
|---|---|

Ystyriodd y Cyngor y Cytundeb Rhwng Awdurdodau ar gyfer pob un o awdurdodau lleol Cymru sy'n gyfrifol am weinyddu cronfa bensiwn. Roedd y Llywodraeth wedi cytuno y gallai 8 Cronfa Bensiwn Cymru gyfuno a sefydlu Cydbwyllgor Llywodraethu i'w weinyddu gan Gyngor Sir Caerfyrddin, gyda Chadeirydd y Pwyllgor Pensiynau a Buddsoddi fel cynrychiolydd y Cyngor.

Cynigiwyd yr argymhellion gan y Cynghorydd Sir TJ Van-Rees a'u heilio gan y Cynghorydd Sir DR Jones a'u pasio gan 39 o bleidleisiau gyda 0 yn erbyn ac un yn ymatal.

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad: |
|---|---|
| **1. Nodi cynnwys y Cytundeb drafft Rhwng Awdurdodau a geir yn Atodiad B a dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Adran 151 a/neu'r** | **(a) I sicrhau cydymffurfio â'r** |

| | |
|---|---|
| **Cyfreithiwr i'r Cyngor (mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor Pensiynau) i gymeradwyo a llofnodi fersiwn derfynol y Cytundeb.**<br><br>**2. Cymeradwyo sefydlu cydbwyllgor (y cyfeirir ato o hyn allan fel y Cydbwyllgor Llywodraethu) ar ôl i'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau y cyfeirir ato yn argymhelliad 1 uchod gael ei gwblhau ac ar sail y cylch gorchwyl a atodir.**<br><br>**3. Dirprwyo cyflawni rhai swyddogaethau i'r Cydbwyllgor Llywodraethu fel a nodir yng nghylch gorchwyl y Cytundeb Rhwng Awdurdodau a nodi'r swyddogaethau hynny sy'n neilltuedig i'r Cyngor.**<br><br>**4. Cymeradwyo penodi Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau a Buddsoddi neu ei Ddirprwy enwebedig i'r Cydbwyllgor Llywodraethu fel cynrychiolydd Cyngor Sir Powys ar y Cydbwyllgor hwnnw.**<br><br>**5. Dirprwyo awdurdod i gynrychiolydd enwebedig Cyngor Sir Powys i weithredu o fewn cylch gorchwyl y Cydbwyllgor Llywodraethu i'w alluogi i gyflawni unrhyw swyddogaeth ddirprwyedig.**<br><br>**6. Cymeradwyo bod Cyngor Sir Caerfyrddin (Cronfa Bensiwn Dyfed) yn gweithredu fel y Cyngor Lletya gyda'r cyfrifoldebau a nodir yn y Cytundeb Rhwng Awdurdodau.**<br><br>**7. Dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Adran 151 mewn ymgynghoriad â'r Cyfreithiwr i'r Cyngor i gytuno ar unrhyw fân newidiadau i'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau.** | **Cyflwyniad gan Gronfa Cymru i'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol mewn ymateb i'r cyhoeddiad ym mis Tachwedd 2015: Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol: Meini Prawf a Chanllawiau ynglŷn â Diwygio Buddsoddiadau.**<br>**(b) Sefydlu trefniadau gweinyddol a llywodraethu i reoli'r trefniadau cyfuno yn unol â chyfrifoldebau Llywodraethu Ariannol ac Awdurdod Gweinyddu Cronfa Bensiwn y Cyngor.** |

Gadawodd y Cynghorydd Sir P Harris am 15.00.

| | |
|---|---|
| **16.** | **DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS A'R STRATEGAETH BUDDSODDI BLYNYDDOL** |

Ystyriodd y Cyngor Ddatganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol.

Cynigiwyd yr argymhelliad gan Ddeiliad y Portffolio Cyllid a'i eilio gan yr Arweinydd a'i basio gan 42 o bleidleisiau gyda 0 yn erbyn a 2 yn ymatal.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Sir WJ Evans ei gefnogaeth er nad oedd ei bleidlais wedi cofrestru.

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad: |
|---|---|
| **Bod y Cyngor yn cymeradwyo Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol** | **Gofyniad Statudol** |

| 17. | CYFLWYNIAD GAN Y COMISIWN FFINIAU |
|---|---|

Traddododd Julie May – y Comisiynydd Arweiniol, Steve Halsall – y Prif Weithredwr, Matt Redmond – y Dirprwy Brif Weithredwr a Farhan Khan – Swyddog Adolygu'r Comisiwn Ffiniau gyflwyniad ar yr adolygiad o wardiau'r Cyngor a fyddai'n rhedeg rhwng 8 Mawrth a 31 Mai. Buont yn disgrifio'r broses adolygu gan esbonio'r meini prawf statudol cydraddoldeb etholiadol, hunaniaeth gymunedol a llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Bu gofyn iddynt anelu at gael un cynghorydd i bob 1,616 o etholwyr a fyddai'n golygu Cyngor ac iddo 66 o Gynghorwyr.

Gadawodd y Cynghorwyr MJB Davies, DW Meredith a TG Turner am 15.35.
Gadawodd y Cynghorwyr SC Davies, L Fitzpatrick, S McNicholas a KS Silk am 15.50.

| 18. | CWESTIYNAU YN UNOL A'R CYFANSODDIAD |
|---|---|

43.1. Cwestiwn i'r Aelod Portffolio gyda chyfrifoldeb am Gyfathrebu gan y Cynghorydd Sir William Powell

**A wnaiff yr Aelod Cabinet gadarnhau pa mor rheolaidd y mae Cyngor Sir Powys yn adolygu ei fethodoleg ymgynghori? Yn enwedig, sut mae'r Awdurdod yn sicrhau ei fod yn harneisio rhwydwaith y cynghorau tref a chymuned yn llawn wrth ymgysylltu â'r nifer uchaf posibl o breswylwyr mewn unrhyw ymgynghoriad penodol?**

*Ateb gan y Deiliad Portffolio sydd â chyfrifoldeb am Gyfathrebu*
*Fel Cyngor Sir rydym yn gweithio yn ôl yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru. Y rhain yw ein methodoleg arweiniol pryd bynnag y byddwn yn edrych i ymgysylltu ac ymgynghori ynglŷn â busnes y Cyngor p'un ai polisi newydd neu newid arfaethedig i wasanaeth sydd dan sylw. Pryd bynnag y bydd gwasanaeth yn dymuno neu angen ymgysylltu â phreswylwyr ynglŷn â mater penodol, rhoddir gwybod iddynt y dylent ystyried yn ofalus pwy yw eu prif randdeiliaid a sicrhau eu bod yn eu gwahodd i ddweud eu dweud am y mater dan sylw. Yn aml cysylltir â chynghorau tref a chymuned naill ai'n uniongyrchol gan y gwasanaeth i roi eu barn neu byddant yn mynd ati i leisio eu barn pan welant gyhoeddusrwydd am fater sy'n effeithio ar eu cymuned. Fodd*

*bynnag, nid dyma sy'n digwydd bob amser ac mae yna le i harneisio'r rhwydwaith cynghorau tref a chymuned yn well er mwyn sicrhau ein bod yn cyrraedd cynulleidfa ehangach. Byddem yn croesawu sgwrs ynglŷn â sut gallwn wella ymgysylltu ar draws y sir.*

Nid oedd unrhyw gwestiwn atodol.

43.2. Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid gan y Cynghorydd William Powell

**A wnaiff yr Aelod Cabinet roi'r diweddaraf i'r Cyngor am broffil gwariant arian yr UE/CDG yn y Sir gan ei fod bellach yn gyfyngedig o ran amser a bod pen draw iddo? Hefyd, pa strategaethau sydd yn eu lle i sicrhau cronfeydd amnewid lle bynnag bo'n bosibl – ac i asesu effaith ddatblygol Brexit ar fywiogrwydd economi ehangach Powys?**

Ateb gan Ddeiliad y Portffolio Cyllid
*Pwynt 1 – A wnaiff yr Aelod Cabinet roi'r diweddaraf i'r Cyngor am broffil gwariant arian yr UE/CDG yn y Sir gan ei fod bellach yn gyfyngedig o ran amser a bod pen draw iddo?*

***Prosiectau Adfywio Gwasanaethau – y sefyllfa bresennol:***

| ***Cronfa*** | ***Teitl y Prosiect*** | ***Cyfanswm Gwerth*** | ***Hyd y Prosiect*** | ***Sylwadau*** |
|---|---|---|---|---|
| *Cronfa Gymdeithasol Ewrop (**ESF**)* | *Cynnydd (prosiect Gwasanaethau Ieuenctid: 11-16 oed)* | *£1.9 miliwn (£950,000 gan yr UE)* | *3 blynedd* | *Disgwylir cymeradwyaeth gan WEFO yn fuan* |
| *Cronfa Gymdeithasol Ewrop (**ESF**)* | *Workways+ Powys (cymorth i unigolion 54+ oed i ddychwelyd i'r gwaith)* | *£695,823 (£348,000 gan yr UE)* | *3 blynedd (2017 – 2020)* | *Prosiect sydd newydd ei gymeradwyo* |
| *Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (**EAFRD**)* | *LEADER 2014 -2020: Gweithredu Powys *** | *£3,430,470* | *7 mlynedd (2015-2021)* | *Agorodd y rhaglen yn swyddogol ar gyfer ceisiadau cyllid 1/2/16* |
| *** Mae dull LEADER yn gysylltiedig â grymuso lleol drwy ddatblygu strategaethau a dyrannu adnoddau'n lleol. Y prif offeryn at ddefnyddio'r dull hwn o ddatblygu ardal a chynnwys cynrychiolwyr lleol mewn gwneud penderfyniadau yw Grŵp Gweithredu Lleol LEADER.<br><br>Mae LEADER yn ffurf ar ddatblygiad lleol dan arweiniad y gymuned. Drwy* | | | | |

<table>
<tr><td colspan="5">
broses o ymgysylltu â rhanddeiliaid, meithrin capasiti grwpiau targed a chydweithrediad, mae’r problemau a wynebir a’r cyfleoedd sydd ar gael i ardal yn cael eu cydnabod a datrysiadau posibl yn cael eu peilotio.
Rhaid i weithgareddau arloesol o dan LEADER fod yn gyson ag o leiaf un o 5 thema LEADER i Gymru:
<ul>
<li>ychwanegu gwerth at hunaniaeth leol ac adnoddau diwylliannol naturiol</li>
<li>hwyluso datblygiad cyn-fasnachol, partneriaethau busnes a chadwyni cyflenwi byr</li>
<li>edrych ar ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau lleol anstatudol</li>
<li>ynni adnewyddadwy ar lefel gymunedol</li>
<li>manteisio ar dechnoleg ddigidol</li>
</ul>
Gweler ein gwefan am fwy o wybodaeth: www.arwain.wales
</td></tr>
<tr>
<td>Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD)</td>
<td>LEADER 2014-2020: Cydweithrediad Powys***</td>
<td>£400,000</td>
<td>7 mlynedd (2015-2021)</td>
<td>Agorodd y rhaglen yn swyddogol ar gyfer ceisiadau cyllid 1/2/16</td>
</tr>
<tr><td colspan="5">
*** Mae LEADER yn ddull o ddatblygu lleol dan arweiniad y gymuned sy’n cael ei ddefnyddio ers dros 20 mlynedd i ymgysylltu â gweithredwyr lleol wrth gynllunio a darparu strategaethau, gwneud penderfyniadau a dyrannu adnoddau at ddatblygu eu cymunedau gwledig.
Cydweithredu yw un o 7 prif egwyddor dull LEADER. Mae gan EAFRD ac EMFF hefyd ddarpariaethau penodol ar gyfer Cydweithrediad o ran Datblygiad Lleol dan Arweiniad y Gymuned.
Mae’r cymorth i Gydweithrediad yn elfen orfodol o fesur LEADER ym mhob Rhaglen Datblygu Gwledig.
Gall cydweithrediad ardal Grŵp Gweithredu Lleol ag ardaloedd daearyddol eraill fod yn elfen allweddol o Strategaeth Datblygu Lleol y Grŵp neu’n gaffaeliad ychwanegol i’r strategaeth hon. Gall cydweithrediad esblygu o gam i gam o gyfnewid profiad i drosglwyddo arferion addawol i weithgarwch cyffredin. Gall cydweithrediad â thiriogaethau eraill sy’n rhoi LEADER ar waith neu ffurfiau eraill ar Ddatblygiad Lleol dan Arweiniad y Gymuned hefyd fod yn offeryn strategol y gall y Grŵp Gweithredu Lleol ei ddefnyddio i gyrraedd y màs critigol sydd ei angen i rai prosiectau neu i gyfuno adnoddau ategol ac arbenigedd.
Yn ogystal â chydweithrediad rhwng tiriogaethau (rhwng Grwpiau Gweithredu Lleol o fewn aelod-wladwriaeth), mae cydweithrediad trawswladol yn rhoi gwerth ychwanegol Ewropeaidd i ddatblygiad lleol.<br>Ffordd o ehangu barn leol a dod â gwybodaeth newydd i’r ardal yw cydweithredu er mwyn gwella strategaethau lleol. Gall hybu cymeriad arloesol camau datblygu lleol a chyfrannu i allu cynyddol yr ardal i gystadlu drwy e.e. meithrin capasiti, cyflwyno partneriaid busnes newydd a thaenu arloesedd, gallu a sgiliau newydd.
</td></tr>
</table>

***Pwynt 2 – Pa strategaethau sydd yn eu lle i sicrhau cronfeydd amnewid lle bynnag bo'n bosibl – ac i asesu effaith ddatblygol Brexit ar fywiogrwydd economi ehangach Powys?***

*Nid yw'r Gwasanaeth Adfywio'n ymwybodol o unrhyw strategaethau penodol sy'n ymdrin â sicrhau cronfeydd amnewid yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw adnodd/swyddogaeth arbennig o fewn y Cyngor i arwain ar weithgarwch sy'n gysylltiedig â Brexit, i ymgymryd â'r gwaith i asesu effaith Brexit ar economi Powys nac i gynnig sail gwybodaeth i ymateb/ymagwedd y Cyngor i/tuag at Brexit. Ar hyn o bryd, nid oes fawr ddim capasiti i'r staff gyflawni'r swyddogaeth hon ar ben eu rhwymedigaethau presennol i ddarparu gwasanaethau a chynlluniau i'r dyfodol.*

*Fodd bynnag, mae'r Gwasanaeth Adfywio'n cydweithio'n agos â Swyddog Ymgysylltu Rhanbarthol Canolbarth Cymru (Powys a Ceredigion) wrth i ni ymdrechu gyda'n gilydd i gyd-gerdded â'r sefyllfa ddatblygol arian byw yma ynglŷn â pholisi rhanbarthol yn y dyfodol ynghylch cyfranogiad llywodraeth leol o broses Brexit ac ar ôl aelodaeth o'r UE. Mae gwybodaeth gynyddol yn cael ei chylchredeg a dderbynnir gennym drwy ffynonellau eang ac amrywiol ar lefel Cymru, y DU a'r UE ac yr ydym yn ceisio cadw ar ben yr wybodaeth yma a'i rhannu.*

*Mater ehangach o lawer na chyllid Ewropeaidd yn unig yw Brexit a dylid ei ystyried ar lefel gorfforaethol gan goleddu pob maes gwasanaeth i'r Cyngor gael ffurfio safbwynt mwy cynhwysfawr. Mae hyd a lled y meysydd polisi a deddfwriaeth y mae Brexit yn effeithio arnynt yn enfawr. Er gwybodaeth, atodir papur brifio o Dŷ'r Cyffredin (gweler yr atodiad) sy'n manylu ar yr amrywiaeth o feysydd polisi y bydd angen eu hadolygu yng ngoleuni Brexit.*

*Drwy Bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru, rydym yn ymgysylltu â Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynglŷn â gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd i fod yn sail gwybodaeth i ddyfodol polisi rhanbarthol yng Nghymru (gweler papur briffio WEFO a atodir). Trafodwyd hyn ym Mhwyllgor Cydlynu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar 24 Chwefror ac rydym wedi cael ein hysbysu am ymgynghoriad ar bolisi rhanbarthol yn y dyfodol y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru cyn y Pasg.*

*Mae Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru hefyd yn cydweithio â phartneriaid allweddol gan gynnwys Swyddfa Economi a Chymru Llywodraeth Cymru ar geisio cadarnhau sefyllfa Cymru yng nghyd-destun Strategaeth Ddiwydiannol arfaethedig Llywodraeth y DU a sut mae'n ymwneud â'r gronfa £23 biliwn ar gyfer buddsoddi mewn cynhyrchiant y soniwyd amdani yn Natganiad yr Hydref y llynedd. Ceir risg y bydd Cymru'n cyrraedd 'y bwrdd yn hwyr' gyda'r Strategaeth Ddiwydiannol os bydd oedi wrth i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU benderfynu sut mae Cymru'n ffitio iddi.*

*O ran economi Powys rydym mewn perygl o effeithiau ehangach ychwanegol Brexit, y bunt yn gwanio a chwyddiant cynyddol. Gall economi Powys fod mewn mwy o berygl oherwydd y ddibyniaeth ar sectorau megis amaethyddiaeth a'r sector cyhoeddus sy'n debygol o ddioddef yn y dyfodol oherwydd sylfaen dreth ostyngol. Amcangyfrifir bod tua £80 miliwn o gyllid Colofn Un PAC yn cael ei dalu'n uniongyrchol i ffermwyr ym Mhowys bob blwyddyn. Oherwydd mai Powys sydd â'r ganran uchaf o Fentrau Bach a Chanolig o blith holl awdurdodau lleol Cymru, efallai na fydd y sector yma mor gydnerth rhag yr heriau economaidd rydym yn eu hwynebu yn y dyfodol.*

*O ran maint y cyllid o'r UE sy'n cael ei wario yng Nghymru gan brosiectau a ariennir o Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd ar draws Gymru gyfan megis Busnes Cymru (Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop – ERDF) a'r Cynllun Prentisiaeth (Cronfa Gymdeithasol Ewrop – ESF), mae'n eithriadol o anodd datod y ffigurau i Gymru gyfan.*
*Mae'n bwysig tynnu sylw at adroddiad diweddar y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol am oblygiadau gadael yr Undeb Ewropeaidd i Gymru, yn enwedig argymhellion un a phedwar (gweler yr atodiad, Goblygiadau Gadael yr UE i Gymru). Mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi llawer o dystiolaeth ar effeithiau posibl Brexit ar draws gwahanol sectorau a byddai'n ddefnyddiol, yn ogystal â thryloyw, i Lywodraeth Cymru rannu'r dystiolaeth hon ag Awdurdodau Lleol i roi sail gwybodaeth i'w gwaith a chynllunio i senarios yn y dyfodol fel bo angen.*

Nid oedd cwestiwn atodol.
43.3. Cwestiwn i'r Aelod Portffolio gyda chyfrifoldeb am Adnoddau Dynol gan y Cynghorydd Sir Gary Price

**A allwch roi gwybod i mi nifer yr Uwch-reolwyr, Penaethiaid Gwasanaeth, Cyfarwyddwyr, Cyfarwyddwyr Strategol a Phrif Weithredwyr a gyflogir gan Gyngor Sir Powys yn ôl Gradd/SCP ar gyfer pob blwyddyn yn nhymor y Cyngor hwn?**

<u>Ateb gan Ddeiliad y Portffolio sydd â chyfrifoldeb am Adnoddau Dynol</u>

*Mae'r tabl isod yn dangos nifer y swyddi Uwch-reolwr a Phrif Swyddog wedi'u llenwi yn ôl gradd a phwynt ar y golofn gyflog, yn ystod pob blwyddyn yn nhymor cyfredol y Cyngor.*

*Byddwch yn nodi bod y niferoedd yn gostwng o un flwyddyn i'r llall, ac eithrio'r flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 lle y ceir cynnydd, cyn gostwng unwaith eto yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol.*

*Priodolir twf 2015/16 i gynnydd o 6 swydd Uwch-reolwr drwy ailstrwythuro Meysydd Gwasanaeth a gafodd eu gwerthuso drwy'r broses Gwerthuso Swyddi er mwyn parhau i gydymffurfio â'r Statws Sengl, ynghyd â 3 Phennaeth Gwasanaeth ychwanegol yn cael eu penodi (Pennaeth TGCh, Pennaeth Gweithrediadau Gwasanaethau Oedolion a Phennaeth Trawsnewid Gwasanaethau Oedolion).*

*Yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol, mae 6 yn llai yn nifer y rolau gyda 3 Uwch-reolwr, 1 Pennaeth Gwasanaeth, 1 Cyfarwyddwr ac 1 Cyfarwyddwr Strategol yn llai.*

*I grynhoi, yn ystod tymor cyfredol y Cyngor, mae nifer yr Uwch-reolwyr a Phrif Swyddogion wedi gostwng 12.5% o 48 i 42.*

| Type | Grade (Pre April 2013) | Grade (Post April 2013) | SCP | No of FTE's per Grade/SCP per occupied position | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | 31/05/2012 | 31/03/2013 | 31/03/2014 | 31/03/2015 | 31/03/2016 | 31/01/2017 |
| Senior Manager | Senior Manager 3 | n/a | 1 | 1 | 1 | | | | |
| | | | 2 | | | 1 | | | |
| | | Senior Manager 2 | 3 | 1 | 1 | 2 | 3 | 6 | |
| | | | 4 | 3 | 3 | 3 | 2 | 3 | 6 |
| | Senior Manager 2 | | 5 | 1 | | 1 | 1 | 2 | 2 |
| | | | 6 | 1 | 1 | 1 | | 2 | 4 |
| | | n/a | 7 | 1 | 1 | 1 | | | |
| | | | 8 | 3 | 3 | 3 | 2 | | |
| | Senior Manager 1 | Senior Manager 1 | 9 | | 2 | 5 | 4 | 4 | 1 |
| | | | 10 | 1 | 1 | 2 | 3.5 | 3 | 4 |
| | | | 11 | | | 1 | 2.5 | 3.5 | 2 |
| | | | 12 | 20 | 19 | 10 | 7 | 7.5 | 9 |
| Heads of Service | n/a | Head of Service 3 | 13 | | | | | | 1 |
| | | | 14 | | | | | | |
| | | | 15 | | | | | | |
| | | | 16 | | | | | | |
| | Head of Service 2 | Head of Service 2 | 17 | | | | | | |
| | | | 18 | | | 2 | | 1 | |
| | | | 19 | 1 | 1 | 1 | 2 | | 1 |
| | | | 20 | 3 | 3 | | 1 | 2 | 2 |
| | Head of Service 1 | Head of Service 1 | 21 | | | 5 | 1 | 3 | 1 |
| | | | 22 | | 1 | | 4 | 1 | 3 |
| | | | 23 | | | | | 4 | 1 |
| | | | 24 | 8 | 4 | | 1 | 1 | 2 |
| Director / Strategic Director | Director | Director 2 | 25 | | | | | | |
| | | | 26 | | 1 | | | | |
| | | | 27 | | | | | | |
| | | | 28 | | | | | | |
| | Strategic Director (Base Range with Lease Car) | Director 1 | 29 | | | 1 | | | |
| | | | 30 | | | | 1 | | |
| | | | 31 | | | | | 1 | |
| | | | 32 | 1 | | | | | |
| Strategic Director | Strategic Director (All incl. without Lease Car) | Strategic Director | 33 | | 1 | 2 | | | |
| | | | 34 | | | 1 | 2 | | |
| | | | 35 | | | | 1 | 2 | |
| | | | 36 | 2 | 2 | | | 1 | 2 |
| Chief Executive | Chief Executive | Chief Executive | 37 | | | | | | |
| | | | 38 | | | | | | |
| | | | 39 | | | | | | |
| | | | 40 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Total Occupied Senior Manager & Chief Officers Positions | | | | 48 | 46 | 43 | 39 | 48 | 42 |
| Date data based on | | | | 31/05/2012 | 31/03/2013 | 31/03/2014 | 31/03/2015 | 31/03/2016 | 31/01/2017 |

Nid oedd cwestiwn atodol.

43.4. Cwestiwn i'r Arweinydd gan y Cynghorydd Sir Gary Price

**Rydych wedi ceisio hyrwyddo bod yn agored ac yn dryloyw yn ystod eich cyfnod fel Arweinydd Cyngor Sir Powys. A allwch egluro felly pam mae enw cod (prosiect Alpha) wedi'i ddefnyddio'n ddiweddar?**

*Ateb gan yr Arweinydd*

*Mae'r ymadrodd "Prosiect Alpha" yn cael ei ddefnyddio i drafod materion cyfrinachol yn y swyddfa eiddo ac mewn gohebiaeth sy'n ymwneud â'r posibilrwydd o brynu darn o dir. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen i rai materion gael eu cadw'n gyfrinachol yn ystod trafodaethau masnachol sensitif sy'n ymwneud â phrynu. Mae hyn i sicrhau nad yw sefyllfa negodi'r Cyngor yn cael ei datgelu ac felly gallwn fod yn siŵr ein bod yn cael y gwerth gorau posibl am arian i breswylwyr lleol. Pan fydd y mater wedi'i gwblhau, byddaf yn hapus iawn rhoi gwybod i'r Cyngor am y canlyniad.*

Nid oedd cwestiwn atodol.

43.5. Cwestiwn i'r Aelod Portffoliio ar gyfer Eiddo, Adeiladau a Thai gan y Cyngor Sir Matthew Dorrance

**Newyddion gwych i Aberhonddu yw datblygiad y Ganolfan Ddiwylliannol ac yn fuddsoddiad i'w groesawu'n wir, ond mae fy nghymuned yn poeni, ac nid heb reswm, am gynlluniau'r Cyngor ar gyfer adeilad presennol y Llyfrgell.**

**A wnaiff yr Aelod Cabinet roi gwybod i'r Cyngor beth mae'r weinyddiaeth yn bwriadu ei wneud gyda'r safle pan fydd y Llyfrgell yn symud i'r lleoliad newydd?**

*Ateb gan Ddeiliad y Portffolio Eiddo, Adeiladau a Thai*
*Mae gwaith ar Ganolfan Ddiwylliannol Aberhonddu ar gerdded ac mae i fod i agor yn haf 2018. Unwaith i'r gwaith ar y cyfleuster diwylliannol newydd gael ei gwblhau, bydd Llyfrgell Aberhonddu yn symud i'r safle newydd.*

*Mae diddordeb wedi cael ei ddangos yn adeilad presennol y Llyfrgell ond mae Cyngor Sir Powys yn ystyried nifer o ddewisiadau ynglŷn â'i ddyfodol. Adfywio fydd ar flaen meddwl y Cyngor wrth edrych ar y dewisiadau hyn.*

Mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Dorrance am y dewisiadau ar gyfer y safle, rhoddodd Deiliad y Portffolio wybod bod peth diddordeb ond dim byd pendant y gallai ei rannu â'r aelodau lleol ar hyn o bryd.

43.6. Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar gyfer Eiddo, Adeiladau a Thai gan y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance

**A wnaiff yr Aelod Cabinet ddarparu datganiad ar ddigartrefedd ym Mhowys?**

*Ateb gan Ddeiliad y Portffolio Eiddo, Adeiladau a Thai*
*Estynnodd cyflwyniad Deddf Tai (Cymru) 2014 ym mis Ebrill 2015 ddyletswyddau awdurdodau lleol i atal digartrefedd gan gynyddu'r amserlen i ymyrryd o 28 o ddiwrnodau i 56 o ddiwrnodau cyn y caiff pobl sy'n mynd at y cyngor am gymorth ddod yn ddigartref. Erbyn hyn mae gan y Cyngor ddyletswydd i atal neu liniaru digartrefedd pawb sy'n dod atom ond mae'n dal i gadw ei ddyletswydd Adran 75 i roi llety i ymgeiswyr sydd â hawl i gymorth, sy'n ddigartref, sydd ag angen blaenoriaethol, nad ydynt yn ddigartref yn fwriadol ac sydd â chysylltiad lleol.*

*Mae'r system newydd yn gymhleth iawn ei gweinyddu ac mae cofnodi digartrefedd wedi dod yn fwy cymhleth ers cyflwyno Deddf 2014. Mae'r ffaith bod yn rhaid i'r Cyngor weithio gydag ymgeiswyr i atal a lliniaru digartrefedd yn hytrach na derbyn dyletswydd i gartrefi'n unig yn golygu bod achosion yn cymryd mwy o amser i swyddogion eu gweinyddu.*

*Ar ben hynny, mae newid deddfwriaethol a chyflwyno systemau cofnodi newydd yn golygu na ellir cymharu'r holl ddata â data a gasglwyd cyn mis Ebrill 2015.*

*Data y gellir eu cymharu yw nifer y cyflwyniadau digartrefedd. Bu cynnydd o 32% mewn cyflwyniadau rhwng y blynyddoedd ariannol 2014-15 a 2015-16 ar draws Powys. Nid oedd hyn yn annisgwyl oherwydd i Ddeddf Tai (Cymru) 2014 estyn hawliau, yn enwedig i bobl ar eu pennau eu hunain. Fodd bynnag, dylid nodi, yn ystod tri chwarter cyntaf 2016-17, fod nifer y cyflwyniadau digartrefedd i'w gweld wedi lleihau, o'u cymharu â 2015-16 ond dylid nodi hefyd fod nifer y bobl mewn llety dros dro y mae ar y Cyngor ddyletswydd gyflawn iddynt yn aros yn gyson – gweler tabl 3 isod.*

***Tabl 1***

| | *2014/15* | | *2015/16* | | *2016/17* | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | *Personau sy'n ymgyflwyno fel rhai digartref gan ysgogi cais digartrefedd* | *Nifer y rhain sy'n bersonau ar eu pennau eu hunain* | *Personau sy'n ymgyflwyno fel rhai digartref neu'n cael eu bygwth â digartrefedd gan ysgogi asesiad S62* | *Nifer y rhain sy'n bersonau ar eu pennau eu hunain* | *Personau sy'n ymgyflwyno fel rhai digartref neu'n cael eu bygwth â digartrefedd gan ysgogi asesiad S62* | *Nifer y rhain sy'n bersonau ar eu pennau eu hunain* |
| *Chtr 1* | *82* | *44* | *108* | *72* | *109* | *55* |
| *Chtr 2* | *61* | *30* | *158* | *94* | *108* | *66* |
| *Chtr 3* | *95* | *59* | *136* | *83* | *103* | *65* |
| *Chtr 4* | *179* | *116* | *162* | *89* | | |

*Bu'r effaith ar draws y sir yn amrywio'n sylweddol; rhwng 2014/15 a 2015/16 cynyddodd cyflwyniadau digartrefedd 107% yn Aberhonddu, 39% yn y Trallwng, 30% yn y Drenewydd ac 13% yn Llandrindod. Yn ystod yr un cyfnod roedd gostyngiad 13% mewn cyflwyniadau digartrefedd yn Ystradgynlais.*

*Mae gogledd y sir yn tueddu i brofi'r nifer mwyaf o gyflwyniadau digartrefedd. Mae Tabl 2 isod yn dangos canran y cyflwyniadau digartrefedd yn y Trallwng, y Drenewydd, Llandrindod, Aberhonddu ac Ystradgynlais.*

***Tabl 2. Canran y cyflwyniadau digartrefedd yn ôl ardal dai***

| ***Swyddfa ardal dai*** | ***2014-15*** | ***2015-16*** | ***3 chwarter cyntaf 2016-17*** |
|---|---|---|---|
| ***Y Trallwng*** | *31* | *33* | *43* |
| ***Y Drenewydd*** | *30* | *30* | *28* |
| ***Llandrindod*** | *19* | *17* | *14* |
| ***Aberhonddu*** | *10* | *15* | *12* |
| ***Ystradgynlais*** | *7* | *5* | *3* |

*Mae niferoedd yr aelwydydd mewn llety dros dro i'w gweld yn eithaf cyson ar hyn o bryd, fel a ddangosir yn Nhabl 3 isod, er bod nifer y teuluoedd sydd â phlant dibynnol wedi cynyddu.*

***Tabl 3. Aelwydydd mewn llety dros dro***

| | 2015/16 | | 2016/17 | |
|---|---|---|---|---|
| | Personau a roddwyd mewn llety dros dro ar ddiwedd y chwarter (ciplun) | Nifer y rhain sy'n deuluoedd â phlant | Personau a roddwyd mewn llety dros dro ar ddiwedd y chwarter (ciplun) | Nifer y rhain sy'n deuluoedd â phlant |
| Chtr 1 | 50 | 11 | 36 | 10 |
| Chtr 2 | 46 | 5 | 43 | 15 |
| Chtr 3 | 30 | 2 | 40 | 11 |
| Chtr 4 | 35 | 6 | | |

*Y prif newid yn y ddeddfwriaeth yw ei bod bellach yn ofynnol ar y Cyngor i atal digartrefedd rhag digwydd neu liniaru digartrefedd drwy sicrhau llety arall, yn hytrach na chartrefu ymgeiswyr sy'n pasio'r profion digartrefedd sef cymhwystra, bod yn ddigartref, ddim yn ddigartref yn fwriadol ac ag angen blaenoriaethol. Mae Tabl 4 isod yn dangos data mewn cysylltiad â pherfformiad yr awdurdod o ran ei ddyletswydd S. 66 i atal digartrefedd. Yn 2015/16, daeth dyletswydd S66 i ben mewn 214 o achosion ac o'r rheini llwyddon ni i atal digartrefedd mewn 152 (71%) o achosion. Yn ystod tri chwarter cyntaf 2016-17, daeth dyletswydd S66 i ben mewn 124 o achosion ac o'r rheini llwyddon ni i atal digartrefedd mewn 79 (64%) o achosion.*

**Tabl 4. Atal digartrefedd yn llwyddiannus**

| | 2015/16 | | 2016/17 | |
|---|---|---|---|---|
| | Canlyniadau: Atal digartrefedd yn llwyddiannus (dyletswydd S66) | | Canlyniadau: Atal digartrefedd yn llwyddiannus (dyletswydd S66) | |
| Chtr 1 | 6 achos o 8 | 75% | 38 achos o 57 | 67% |
| Chtr 2 | 38 achos o 53 | 72% | 24 achos o 39 | 62% |
| Chtr 3 | 50 achos o 66 | 76% | 17 achos o 28 28 | 61% |
| Chtr 4 | 58 achos o 87 | 67% | | |

*Mae Tabl 5 yn dangos perfformiad yr awdurdod o ran lliniaru digartrefedd yn ystod y ddwy flynedd ers i'r ddeddfwriaeth gael ei chyflwyno. Yn 2015-16 daeth dyletswydd S73 i ben mewn 175 o achosion a llwyddon ni i liniaru digartrefedd mewn 85 (49%) o achosion. Yn ystod tri chwarter cyntaf 2016-17 daeth dyletswydd S73 i ben mewn 195 o achosion a llwyddon ni i liniaru digartrefedd mewn 88 (45%) o achosion.*

**Tabl 5 Lliniaru digartrefedd yn llwyddiannus**

| | 2015/16 | | 2016/17 | |
|---|---|---|---|---|
| | Canlyniadau: Lliniaru digartrefedd yn llwyddiannus (dyletswydd S73) | | Canlyniadau: Lliniaru digartrefedd yn llwyddiannus (dyletswydd S73) | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ***Chtr 1*** | *5 achos o 9* | *56%* | *24 achos o 62* | *39%* |
| ***Chtr 2*** | *25 achos o 41* | *61%* | *27 achos o 60* | *45%* |
| ***Chtr 3*** | *16 achos o 42* | *38%* | *37 achos o 73* | *51%* |
| ***Chtr 4*** | *39 achos o 83* | *47%* | | |

*Un o'r gwahaniaethau mawr rhwng yr hen drefn ddeddfwriaethol ynglŷn â digartrefedd a'r drefn a gyflwynwyd gan Ddeddf 2014 yw nifer yr aelwydydd a gartrefwyd fel rhai digartref gan y Cyngor. Yn ystod y flwyddyn olaf cyn i Ddeddf 2014 ddod i rym cartrefwyd 93 o ymgeiswyr gan y Cyngor o dan ei ddyletswydd S193. Yn 2015-16 cartrefwyd 33 o ymgeiswyr gan y Cyngor o dan ei ddyletswydd S75 (byddai pobl hefyd wedi'u cartrefu fel rhan o gyflawni S66 ac S73).*

Mewn ateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Dorrance am y rheswm dros gynnydd o 107% mewn digartrefedd yn Aberhonddu a beth oedd yn cael ei wneud i fynd i'r afael â hyn, eglurodd Deiliad y Portffolio fod y cynnydd oherwydd i dri theulu ddod yn ddigartref ond bod y nifer hwn wedi lleihau ers hynny. Er nad oedd yn ymwybodol o'r rhesymau ei hun rhoddodd sicrwydd i'r Cyngor fod y gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda phobl i'w helpu. Nododd fod cyflwyno credyd cynhwysol yn debygol o arwain at fwy o broblemau o ran digartrefedd.

**Datganiad Personol gan yr Arweinydd**

Rhoddwyd gwybod gan Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Sir WB Thomas, na fyddai'n sefyll yn yr etholiadau llywodraeth leol oedd ar ddod. Diolchodd i'r Cyngor am yr anrhydedd o gael ei ethol yn Arweinydd Cyngor Sir Powys.

**County Councillor K F Tampin (Caderiydd)**